Rhagfyr 2018_Layout 1 15/11/2018 14:15 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 7/8 RHAGFYR 2018 / IONAWR 2019 50c

# Cyfarfod Dinesig i anrhydeddu D. Ben Rees yn Ddinesydd er Anrhydedd



*Meinwen Rees, Dr. D. B. Rees, y sgrôl, a'r Arglwydd Faer*



*Y Teulu (o'r chwith i'r dde): Hefin a Dafydd Rees, Meinwen Rees, D. B. Rees, Joshua Rees, Dr. Bethan Rees a Tomos Rees*



*Mwynhad perffaith*



*Llofnodi'r sgrôl*




*Dr. John G. Williams yn cyflwyno portread cofiadwy o Dr. Rees*

*Lluniau gan Jason Roberts.*

*Ceir adroddiad gan Nan Hughes Parry ar dudalen 4*



*Angharad Huw o Ruthun, y delynores ifanc*

Golygyddol

# *YR YMGNAWDOLIAD*

## *- gan D. Ben Rees*

Dywed yr ysgolhaig Beiblaidd R. H. Strachan yn ei esboniad bod holl syniadau canolog yr Efengyl Gristnogol yn cael ei gyflwyno a'i grynhoi a'i gynnwys yn y bennod gyntaf o Efengyl Ioan lle y ceir yr efengylydd yn diwinydda am eni'r Iesu. Gadewir i Luc a Mathew i ddisgrifio yn gofiadwy yr hanes am Mair a Joseff, am y geni ym Methlehem Jiwdea, am greulondeb y Brenin Herod ac am ymweliadau y bugeiliaid o fryniau Jiwdea a'r doethion o Babylon bell.

Ond yn prolog Efengyl Ioan, pennod 1, adnodau 1-18 ceir sôn am Yr Ymgnawdoliad, sef Duw yn dod i'r byd ym mherson yr Iesu. Duw sydd y tu hwnt i'n dirnadaeth ni ac yn sicr ein deall ni wedi dod i'n plith yn yr Iesu. Duw gyda ni yw diffiniad byr a chywir o'r Ymgnawdoliad. Y newyddion da o lawenydd mawr sydd i bob gwlad a chenedl yw fod Duw a oedd yn bell wedi dod yn agos yn y baban Iesu. Fel y dywed Ioan: 'Ni welodd neb Dduw erioed, yr Uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnnw a'i hysbysodd Ef' (adnod 18). Mae'r Ymgnawdoliad yn cyhoeddi bodolaeth Duw fel nad oes angen i neb ei wadu a gwrthod credu ynddo. Cofiwn y geiriau cyfarwydd:

*'Wele fi yn dyfod*
*Llefa'r Meichiau gwiw*
*Atsain creigiau Salem*
*Dyfod y mae Duw'.*

Ac meddai y pennaf o'n hemynwyr, y diguro William Williams, Pantycelyn:

*'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef*
*Hwn yw y mwyaf Un*
*Gweld yr anfeidrol ddwyfod fod*
*Yn gwisgoi natur Dyn'.*

Rydym yn ffodus yn ein hemynwyr am risialu y gwirionedd diwinyddol mewn ffordd sydd yn ddealladwy i bob un ohonom, ac y mae pob un ohonynt am inni agoshau y Nadolig hwn fel pob Nadolig arall, fel y bugeiliaid gynt, yn ein rhyfeddod. Mae pawb yn rhyfeddu at y newydd anhygoel fel y soniai y ferch ryfeddol o Ddolwar Fach yng nghanol cefn gwlad Sir Drefaldwyn, Ann Griffiths. Dyma'i neges eirias ond syml:

*Rhyfedd, rhyfedd gan angylion,*
*Rhyfeddod mawr yng ngolwg ffydd,*
*Gweld Rhoddwr bod, Cynhaliwr helaeth*
*A Rheolwr popeth sydd*
*Yn y preseb mewn cadachau*
*A heb le i roi'i ben i lawr,*
*Eto disglair lu'r gogoniant*
*Yn ei addoli'n Arglwydd mawr.*

Dyma'r rhyfeddod. Yn nyddiau y Coleg deuthum ar draws lu o ddiwinyddion modern oedd yn ceisio dyfeisio termau modern i oes ansicr, oes oedd yn gwadu'r gwirioneddau sylfaenol. Awgrymai Paul Tillich y dylem alw Duw yn ***'Ground of our Being'***, ond yr oedd Ann Griffiths yn symlrwydd ei bywyd ysbrydol wedi dyfeisio gwell enw na Tillich am Dduw, sef ***'Rhoddwr Bod'.*** Y Duw sydd yn rhoddi i'r byd ei ganllawiau a'i gynlluniau, a'i weledigaethau a'i radicaliaeth.

Adnod sydd ag angen ei dysgu ar y cof yw'r adnod a geir yn y bennod gyntaf o efengyl Ioan: 'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith' (adnod 14). Y Gair a ddaeth yn gnawd os mynnwch chwi, ac fe wyddom fod y gair cnawd yn cynrychioli pob peth sydd ddynol, hynny yw, y gallu i ddioddef poen a beirniadaeth deg neu annheg, mwynhau darllen, a gwrando a gwylio, yn newynnu am gyfiawnder a dyddiau di-ryfel, yn blino yn gorfforol ar ôl wyth awr o lafurio yn y maes, yn y siop, wrth y ddesg, neu o flaen dosbarth, neu yng ngofal cleifion. Y gallu i wylo gyda phobl y storom fawr ei grym ac i ymdrechu hyd eithaf ein gallu dros deulu, capel ac eglwys, cymuned, a dinas a chenedl. Dywed y gair 'cnawd' wrthym fod angen i ni gynyddu mewn gras a chariad, i oresgyn tesmtasiynnau'r cnawd, gorfwyta a goryfed, cael ein temtio i ddilyn eraill, i wario yn ofer ac i arbrofi gyda drygiau.

Meddylier am fyfyriwr ym Mhrifysgol Newcastle yn ddiweddar yn yfed 25 o wydrau yn cynnwys fodca mewn awr a hanner fel bod ei galon yn methu dal y straen. Collwyd mab annwyl oherwydd iddo gael ei demtio gan ei ffrindiau a'i gyd fyfyrwyr. Profiadau ac emosiynau yw'r rhain a gaiff pobl ymhob canrif ac mae Gŵyl y Geni, yn adeg o'r flwyddyn lle mae'r temtio ar ei waethaf gan ein bod am fod yn boblogaidd i'n cyfoeswyr. Dyna fychander dynion a merched yn methu a goresgyn y temtasiynau.

Ac eto yn ôl ein testun y mae Duw yn en hymyl, 'ac a drigodd yn ein plith', yn ein cartref, yn ein cylch, yn ein teulu. Dywedodd Dr. Cynddylan Jones un o ddiwinyddion Calfinaidd y Cyfundeb yn ei esboniad trylwyr mae'r cyfieithiad cywir ydyw 'ac a babellodd yn ein plith'. Ioan yn meddwl am genedl Israel yn trigo mewn pebyll yn yr anialwch, ac yn ein hatgoffa fod Duw yn ei Fab yn trigo yn ein plith ym 'mhabell y cyfarfod' a benthyca'r term o lyfr Ecsodus. Trigodd Duw ar y ddaear o Ŵyl y Geni hyd yr Esgyniad ac aeth i fewn i brofiadau dynion a merched. 'Ni a welsom ei ogoniant Ef'. Golyga hyn ein bod bellach yn meddu ar ffyrdd y proffwydi a ffydd yr apostolion a ffydd seintiau'r Eglwys. Y mae'r gogoniant yn debyg i ogoniant a geid yn y cysegr sancteiddiolaf yn y Deml, a hwnnw, cofier, yn llawn gallu a gras a gwirionedd.

Y mae un gwirionedd mawr pwysig fel gwythien yn rhedeg trwy hanes yr holl fyd, sef geiriau pwysig Prolôg Efengyl Ioan. Dyma nhw ***Y Gair, Goleuni, Bywyd, Uniganedig, Iesu, Mab y Dyn***, a ***Mab Duw***. Trwy Iesu Grist yn unig y daw'r cyfan hyn yn eglur i feirdd ac athronwyr, addolwyr, gwleidyddion a diwinyddion, emynwyr, cerddorion ac efengylwyr. Ef sydd yn egluro i ni yn fanwl, fanwl ac yn dehongli yn amyneddgar. Sylwn felly mae yng ngwyneb yr Iesu y mae gweld Duw, ac yn nysgeidiaeth yr Iesu y mae deall bwriadau Duw ar gyfer ei fyd. Ac felly fe ddeallodd y cyfan ohonom yr Ymgnawdoliad a neb yn well na'n beirdd fel Cymry. Meddylier am y llyfrgellydd diwyd, a fu ar hyd ei oes yn gofalu am lyfrau Coleg y Brifysgol ym Mangor, Derwyn Jones o Fochdre yn llunio englyn ar y thema y bum i yn poeni amdano yng Ngolygyddol rhifyn Nadolig 2018 *Yr Angor.* Testun yr englyn yw *Yr Ymgnawdoliad* (Trwyddo Ef y gwnaethpwyd pob peth. A dyma ei gampwaith pedair llinell cynganeddol ond diwinyddol ei neges –

*Awenfawr graidd yr Hanfod – yn y Mab*
*Ar lin Mair i'w ganfod;*
*Ein Gobaith, neb na Gwybod,*
*A'r Gair maith heb iaith yn bod.*

Ardderchog o englyn am iddo fentro i lunio neges ar un o gredoau pwysicaf y ffydd. Heb gred yn yr Ymgnawdoliad na'r Atgyfodiad y mae ein diwinyddiaeth yn druenus a dirmygys o fewn teulu'r ffydd.

*YSGRIF GOFFA:*

# Mrs EIRA WYN HUGHES

## Cilgwri (1936-2018)

*Ganwyd 14 Chwefror 1936. Bu farw 6 Gorffennaf 2018.*

**Gloyn byw yw'r disgrifiad gorau o Eira Wyn, un a gyflawnodd dddiwrnod da o waith dros yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn Cilgwri. Ganwyd hi yn ninas Manceinion ar 14 Chwefror 1936 am fod ei mam Rosa Thomas (nee Jones) yn gynnyrch y ddinas honno. Mewn dyddiau cyn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, mae'n amlwg bod hi am ymddiried yn sgiliau bydwragedd Manceinion na Arfon.! Yn fis oed dychwelodd i ardal Llanrug i Gymreictod ac at ei thad Tom Thomas a'r teulu oedd yn arddel y gwerthoedd. Rheolwr ydoedd gyda chwmni *Royal Liver Friendly Society* yn y swyddfa ym Mangor, ond yn ei filltir sgwar gweithredai fel diacon yng nghapel yr Annibynwyr Cymraeg Bryngwyn ym mhlwyf Llanrug. Cyfrifid ef yn ŵr haelionus yn y gymdogaeth i elusennau. Etifeddodd y ddwy ferch riweddau ei rhieni a bu y chwaer ieuengaf Megan a'i gŵr Gareth yn hynod o annwyl i'w chwaer yn ei gwaeledd gan deithio ddwywaith yr wythnos am dros flwyddyn i ymyl gwely ei chwaer yn y cartref nyrsio yng Nghilgwri.**

**Addysgwyd Eira Wyn yn lleol ac yn yr Ysgol Sul a chael ei derbyn i Ysgol Ramadeg Brynrefail lle y disgleiriodd ar sail ei ymroddiad addysgol a diwylliannol. Derbyniwyd hi i Goleg Hyfforddi Cartrefle, Wrecsam. Coleg lle y daeth yn edmygydd o'r llenor coeth Tom Hughes Jones, awdur *Sgweiar Hafila* a chyfrolau eraill. Daeth allan o'r coleg yn athrawes trwyddedig a chael swydd dysgu yn ninas Lerpwl lle ceid ugeiniau eraill o'r fro Gymraeg. Mynychai Clwb y Cymry yn Upper Parliament Street lle darperid yn helaeth ar gyfer y Cymry ac yno y cyfarfu gyda Chymro brwd arall Glyn Hughes. Priodwyd hwy yn 1959 yng nghapel Bryngwyn ond cymaint oedd edmygedd Cymry Penbedw o'r ddau, nes i gapel yr Eglwys Fethodistaidd Wesleaidd llogi bws o Claughton Road er mwyn y cefnogi y ddau ifanc ar gychwyn y daith briodasol. Talodd y weithred hardd hynny ar ei ganfed. Sefydlodd y ddau eu cartref newydd yn Prenton, rhan o ddinas Penbedw. Cartref Cymraeg a ganwyd iddynt ferch Bethan a mab Hywel gan ei cynysgaeddu a'r iaith Gymraeg a bu'r ddau a'u teuluoedd yn gannwyll ei llygaid ar hyd y blynyddoedd.**

**Gwreiddiodd y teulu yn ninas Penbedw gan ymdaflu i fywyd Cymraeg a chrefyddol ei gyd-Gymry. Dychwelodd Eira i fyd dysgu ar ôl i'r plant ddechrau'r ysgol ac yn y cyfnod hwn y mynychodd Ddosbarth Nos i ddysgu y grefft o nyddu a chwiltio. O fewn amser byr yr oedd yn hynod o fedrus, a daeth y disgybl yn ddigon abl i gymeryd dosbarth ei hun. Dyma dechrau ar ei chyfraniad pwysig gyda'r droell nyddu ac yn myd cwiltio. Medrai eich cadw yn ddiddig yn egluro'r gwahaniaethau rhwng cwiltio Cymraeg a chwiltio Saesneg neu chwiltio Eidaleg.**




**Dechreuodd annerch cyfarfodydd yn Gymraeg a Saesneg ar y grefft a chofiaf yn dda ei gwahodd dros gyfnod o ugain mlynedd bedair gwaith i gymdeithas Lenyddol Lerpwl i ddangos ei gwaith ac i wrando arni yn traethu yn huawdl ac yn arddangos y cwiltiau hardd, y lliwiau, a'r cyfan yn waith un a gysegrodd ei doniau. Y cyfan yn golygu gymaint o ymdrech. Gyda chefnogaeth ei theulu mentrodd ymhellach na Sir Gaerhifryn a Sir Gaer a chreodd stori gwerth ei hadrodd. Bu ar ymweliad â'r Unol Daleithiau yn arddangos ei gwaith ac annerch ar ei chynhyrch 26 o weithiau. Derbyniodd wahoddiadau o gyfandir Ewrop, bu ar ymweliad â Rwsia a gwahoddwyd hi i Siena. Derbyniodd a theithiodd yno. Nid oedd diwedd ar ei medr a dawn dweud.**

**Ynghanol hyn i gyd, fel llysgenhad answyddogol y Cymry fel petai, ni esgeulusodd Cymdeithas Gymraeg Penbedw gan ymdaflu ei hun gorff ac ysbryd i weithgarwch cyson, wythnosol bob hydref, gaeaf a gwanwyn. Bu yn Lywydd y Gymdeithas ac yn ysgrifennydd penigamp am gyfnod hir. Darlithiai ei hun, cymerai ran yn y dadleuon, a llwyddai i gael darlithwyr poblogaidd Gogleddd Cymu i deithio i Benbedw ar nos Lun. Adnabyddai gymaint o bobl a chymaint ohonynt yn edmygwyr mawr ohoni. Bu colli ei phriod yn gryn siomedigaeth ac ni bu bywyd yn hawdd oddiar y brofedigaeth. Cafodd broblemau gyda'r golwg a bu'n rhaid rhoddi'r gorau i ddreifio ac i gyflawni gwaith cwiltio. Symudodd o'i chartref ac yn fuan gwelid fod arni angen gofal dwys. Derbyniodd ofal cariadus yng nghartref nyrsio Beechcroft, Oxton a diolchir iddynt am ei tosturi a'i caredigrwydd. Diolchwn fel alltudion am ei chyfraniad a erys Cymdeithas Cymry Penbedw yn goffadwriaeth iddi i'r dyfodol a gwerthfawrogiad miloedd o fobl ar dri chyfandir a'i chlywodd a gweld ei gwaith.**

***D. Ben Rees***

# CORNEL Y TRYSORYDD



## Rhagfyr 2018 / Ionawr 2019

| | |
|---|---|
| Dr. a Mrs Arthur Thomas, Mossley Hill | £100.00 |
| Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl | £750.00 |
| Mrs Betty Jones, Llandegfan | £40.00 |
| Mrs Anne Roberts, Rhuthun | £25.00 |
| Eleri a Robin Gwyndaf, Caerdydd | £40.00 |
| Mr a Mrs Eryl Edwards, Llanuwchllyn | £10.00 |
| Mrs Evelyn James, Pwllheli | £20.00 |
| Mrs Nan Hughes Parry, Woolton | £30.00 |
| **Cyfanswm** | **£1015.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# CYFARFOD DINESIG NODEDIG

## *gan Nan Hughes Parry*

Roedd y 3ydd o Hydref yn ddiwrnod unigryw iawn i'n gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees pan dderbyniwyd ef yn Ddinesydd y Ddinas yn neuadd y dref, Lerpwl. Anrhydedd haeddiannol iddo am ei holl weithgareddau amrywiol a gyfrannodd i ni y Cymry Cymraeg am hanner can mlynedd ac hefyd i gymunedau ac i ddinas Lerpwl ei hun.

Roedd ei annwyl briod Meinwen, a'r bechgyn, Dafydd, Hefin a Bethan, y wyrion Tomos a Joshua ynghyd ag aelodau o'r eglwysi yn dystion i'r seremoni hon oedd yng ngofal Arglwydd Faer y Ddinas, y Cynghorydd Christine Banks, a'r Is-faer Lerpwl, y Cynghorydd Gary Miller, Old Swan a Dr. John Williams. Ymatebodd Dr. Rees i'r anrhydedd osodwyd arno gan arwyddo'r anrhydedd a derbyn y sgrôl hardd sydd yn dyst o hynny.

Yn dilyn y gwasanaeth ffurfiol cafwyd naws Gymreig o ddatganiad ar y delyn o *'Dafydd y Garreg Wen'* gan Angharad Huw, Rhuthun ac unawd *'Guide me o Thou Great Redeemer'* gan D. Louise Thomas, Crosby, cyn cydganu y ddwy Anthemau Cenedlaethol.

Trefnwyd bwffe ardderchog gan Meinwen ar gyfer yr holl wahoddedigion a difyr oedd gwrando ar deyrngedau Dafydd a Hefin i'w tad a Dr. Arthur Thomas ar ran Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Lerpwl.

Rydym ni yma ym Methel yn gwybod yn fwy na neb am gyfraniad di-ildio Dr. Rees i'r eglwysi a'i gyfraniad tu allan i furiau'r eglwys. 'Da was, da a ffyddlon'.

Lluniau: Jason Roberts



*Daniella L. Thomas, unawdydd y seremoni*



*Rhai o'r gwahoddedigion a ddaeth ynghyd i'r cyfarfod dinesig*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Rhagfyr 2018_Layout 1 15/11/2018 14:15 Page 5

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*"Gwelais fedd yr haf heddiw –*
*Ar wŷdd a dail, hardded yw*
*Yn aeddfedrwydd lleddf hydref"*.

Dyma ddarlun y bardd T. Gwynn Jones o dymor yr hydref, ac mae aeddfedrwydd y tymor yn ei amrywiol liwiau i'w fwynhau a'i glodfori.

Roedd hi'n oedfa o fawr lawenydd ar y Sul cyntaf o'r mis, oedfa o fedydd dan ofal ein gweinidog y Parchedig D. Ben Rees. Bendithiwyd merch fach Gareth a Lauren Roberts, Delilah Alys. Roedd yn ddiwrnod o falchder mawr i Mair ag Idris Roberts, y nain a'r taid, a braf oedd cael cwmni eu teulu o Gymru a thu hwnt yn ein plith.



***Gareth a Lauren Roberts gyda Delilah Alys***



***Myfi sydd magu'r baban (chwaer taid Delilah)***

Hysbysodd ein gweinidog yr eglwys am apwyntiad y Parch Robert Parry, Wrecsam yn gynorthwyydd Bugeiliol ar eglwysi Cymraeg, Glannau Mersi. Bydd yn dechrau ar ei waith ar Ebrill 1, 2019 a rhown groeso tywysogaidd iddo i'n mysg.

Roedd y ganolfan yn llawn yn dilyn yr oedfa a mwynhawyd cwmni ein gilydd uwch paned a theisen.

Manteisiodd Dr. John Williams ar y cyfle i lansio apêl am roddion i brynu peiriant adfywio'r galon at wasanaeth yr eglwys. Daeth swm sylweddol o dros £300 i fewn, ac mae'r apêl yn agored hyd ddiwedd Rhagfyr os oes rhai ohonoch yn dymuno cyfrannu ymhellach.



***Y wledd a baratowyd ar ddiwedd yr oedfa fedydd***



***Teulu Delilah gyda Harry, taid, a taid a nain (Mair ac Idris Roberts)***

*Nos Lun, Hydref 18fed*. Nid oedd Dr. Derec Llwyd Morgan o Ynys Môn yn abl i ddod atom i'r Gymdeithas Lenyddol oherwydd gwaeledd ond syrthiodd Dr. D. Ben Rees i'r adwy fel arfer. Cawsom ddarlith afaelgar ganddo ar Aneurin Bevan a dathlu y Gwasanaeth Iechyd yn 70 eleni, yr ail ddarlith ar y pwnc, a'r ddwy yn wahanol. Magwyd Aneurin Bevan yn Nhredegar a daeth yn ymwybodol yn ifanc iawn o dlodi a llymder byw y teuluoedd y lofa. Roedd

llawer ohonynt yn dioddef o afiechydon fel y dicau, polio, diptheria a chlefyd y llwch ar y glöwyr.

Sefydlwyd Cymdeithas Cynorthwyo gweithwyr a Glöwyr Tredegar yn 1890 i roi dwy neu dair ceiniog o bob punt o'u cyflog i sefydlu ysbyty a daeth Aneurin Bevan yn aelod pwysig a Chadeirydd yr ysbyty leol yn 1927. Aeth i mewn i'r senedd yn 1929. Roedd iddo dair swydd i ofalu amdanynt yn 1945, sef tai, iechyd a llywodraeth leol. Byddai yn barod i fentro, ef oedd adeiladydd a chynllunydd y gwasanaeth iechyd, ac ymestynwyd y gwasanaeth i'r gymuned a hynny am ddim. Disgwyliai i'r awdurdodau lleol i reoli'r ysbytai ac fe wladolwyd yr ysbyty fel ag y wnaed gyda'r pyllau glo a'r trenau yn 1947. Darparodd gynllun da – Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol o dan Fyrddau Rhanbarthol, i gael gwasanaeth meddygon, deintyddion, fferyllwyr i ofalu am y henoed, yr anabl, mamau yn geni plant a chludiant yr ambiwlans pan oedd hi yn argyfwng. Roedd hyn yn frwydr galed iddo i'w wireddu – cael y gwasanaeth iechyd yn rhad ac yn agored i bawb yn y wlad gan fod cymaint o wrthwynebwyr. Dyn â gweledigaeth oedd Aneurin Bevan. Bu raid iddo frwydro'n galed a llawer o anawsterau ar y ffordd. Ei ddymuniad bob amser oedd "Dim ond y gorau i gleifion". Diolch Dr. Rees am ddarlith mor bwreus am un a fu mor arloesol er lles iechyd y genedl a thu hwnt, a deil Iechyd fel y dywedodd y Canghellor yn y Cyllid yn flaenoriaeth i bobl Prydain. Llywyddwyd gan Mrs Nan Hughes Parry a mynegodd ddiolch am orig addysgol a diddorol.

Roedd *Hydref 20fed* yn Sul o Ddiolchgarwch o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Daeth cynulleidfa deilwng, rhai wedi gwneud ymdrech deg i fynychu'r oedfa ar ôl gwaeledd "Diolch am roddi imi'r bore, am bob rhyw newydd ddydd a ddaw, Diolch am sicrwydd fod fy mreichiau oll o dan dy law", oedd y thema. Addurnwyd y capel yn addas iawn gan Beryl Williams gyda blodau, ffrwythau a llysiau'r maes. Dyledus ydym iddi. Diolchwn i'n gweinidog am ei wasanaeth a'i bregeth a buddiol oedd i ni gyfrannu o Swper yr Arglwydd, sef Sacrament y Diolch.

Yn ôl ein harfer cyfarfod o ddiolch eto nos Lun yn dilyn yr un thema a drefwyd gan Dr. Pat Williams. Llywyddwyd gan Ben Hughes. Cymerwyd rhan gan aelodau'r eglwys yn diolch am y greadigaeth a darpariaeth Duw ar ein cyfer fel ag yr oedd yn hanes cenedl Isael yn gofalu i wlad yr Addewid, ac i ninnau heddiw gofio am y tlodi mawr yn Yemen, yr anghyfiawnder ar hyd a lled y byd a diffyg bwyd hyd yn oed mewn rhannau o Brydain. Diolch i'r pump a gymerodd ran yn diolch ac yn eiriol dros eraill, a chafwyd gair gan y Gweinidog i gloi, noson draddodiadol ond hynod o dderbyniol.



***Disgiau Ynys Afallon – Wena Evans, Dr. J. G. Willams a Carys Jones***

*Nos Lun Hydref 29* cafwyd noson hwyliog iawn yn y Gymdeithas Lenyddol 'Disgiau Ynys Afallon' dan arweiniad Dr. John Williams yn holi Carys Jones a Wena Evans, a pheiriant y disgiau yn nwylo Sara Williams. Roedd y pedwar wedi gwisgo'n drofanol gyda garland lliwgar o amgylch eu gyddfau. Fel ag yr oedd y gynulleidfa yn cerdded i mewn roedd diod o pina colada (di-alcohol) yn ein croesawu, a chanmol mawr i hyn. Mrs Beryl Williams, fel arfer, yn feddylgar. Y cwestiwn cyntaf oedd – *"Sut y byddech yn dygymod ar yr ynys unig tu hwnt i'r lli?"* Byddai Wena yn defnyddio'r canghennau a dail y coed i'w chysgodi a gwneud hamoc cyffyrddus i gysgu ynddo. Mi fyddai Carys yn ceisio cynnau tân, ei phroblem fwyaf fyddai byw heb ffôn symudol. Cadwai ei hyn yn hapus drwy ganu caneuon, gan ddechrau gyda'r hwiangerddi bore oes fel 'Mi welais Jac y Do' a 'Fuoch chi 'rioed yn morio?'.

Dewis cyntaf Wena oedd disg o'r Benedictus o dan arweiniad Karl Jenkins, darn cyfarwydd iddi, wedi ei ganu gyda Chôr Cymry Lerpwl. Yr emyn 'Mor fawr wyt ti' yn cael ei chanu gan Gôr Cymry Lerpwl o ddisg cyfrol 2, casgliad Ted Clement-Evans. Copïau ar gael o hyd. Ei dewis olaf oedd disg o Max Boyce 'The Scottish Trip' a'r gynulleidfa yn ymuno yn y cytgan, ac yn rowlio chwerthin yn ei seddau.

Clywsom Syr Bryn Terfel yn canu 'Anfonaf Angel' o waith Hywel Gwynfryn a Robat Arwyn. Dyna oedd dewis cyntaf Carys. Gan ei bod yn byw mor agos i Penny Lane rhaid oedd cael disg o'r Beatles, a'i dewis olaf yn glasurol Concertio i dwy ffidil y D leiaf, Yehidu Menihun a David Oistrakh – y symudiad cyntaf a glywyd am y tro cyntaf ym Mharis yn 1958.



***Pina colada***

*(Lluniau: Sara Williams)*

*Pa lyfr fuasech yn dewis mynd gyda chi?*

*Caneuon Ffydd* oedd ateb Wena a Carys am fynd a Jane Eyre.

*Pa foethusrwydd fyddech yn ddewis?* Wena am fynd ag albwm o luniau yr holl deulu i'w chadw'n ddiddig a Carys yn dewis offer golff.

Noson arbrofol, difyr ac ysgafn a dymuniad ein gweinidog wrth ddiolch iddynt - i gael noson fel hyn y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn fendith.

Ein diolch i Lilian, Gwenfil ag Enid am y te a'r bisgedi cyn cychwyn am adref ar noson mor oer.

Bu Mrs Beryl Williams yn gaeth i'w chartref ddechrau'r mis oherwydd afiechyd ond erbyn hyn wedi atgyfnerthu ac yn ôl yn en mysg.

Derbyniodd Mrs Norma Owen driniaeth ar ei chlun, a'r athro Huw Rees yntau allan o'r ysbyty a bu Mr. R. Ifor Griffith yno hefyd am gyfnod byr, ond da gweld y pedwar yn yr Ŵyl Ddiolchgarwch.

Cydymdeimlwn yn fawr â Meirion, Eirlys a'r plant Dylan, Alan a Bethan yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Un a fu'n byw ar y glannau oedd Mrs Nan Evans, a bu'n cadw tŷ Capel Garston am flynyddoedd. Gwraig hoffus dros ben, yn gymwynasgar a graslon bob amser, a da gwybod bod

ysgrif goffa iddi yn yr *Angor* hwn. Ymfudodd yn ôl i'w chynefin i Benisarwaun a bu fyw i oedran teg yn 96 oed. Bu Meirion a'r teulu, Mair a Mike yn ofalus ohoni a hithau yn edrych ymlaen at eu cwmni bob amser.

Mae Mr. Ben Hughes, Childwall yn yr Ysbyty Frenhinol ar hyn o bryd ac yn disgwyl cael dod adref yn fuan, a metha Mrs Meinwen Rees â dilyn yn oedfaon oherwydd iddi gael damwain i'w chefn. Anfonwn fel Eglwys ein cofion atoch oll sy'n gaethiwus. Ein dymuniaau gorau i Mair ag Idris Roberts yn dathlu eu priodas ruddem yn ystod y mis a aeth heibio.

Pob bendith arnoch yn Weinidog ac aelodau dros Ŵyl y Nadolig ac i'r flwyddyn newydd.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Ar Sul ein trefniant lleol gwahoddwyd un o gyn-aelodau'r eglwys ym Methania i gymryd yr oedfa, a diolchwn i'r Parchedig Margaret Quayle am ei harweiniad a'i defosiwn derbyniol dros ben. Gwasanaethwyd ar Sul ein Diolchgarwch gan ein Gweinidog, Dr. D. Ben Rees a chawsom ein hatgoffa ganddo fod ein dwylo ni yn debyg i ddwylo Iesu Grist, dwylo gwaith a dwylo gweddi, dwylo diolch a chymdeithasu, dwylo dyn yn cyfarch dwylo Duw. A dyma'r dwylo a fu'n brysur yn y Cynhaeaf eleni eto a daeth John P. Lyons a llond bag o afalau o'i goeden yn Knowsley i'w rannu i'w gyd-Gristionogion. Trefnodd Jim a Elin Boyd gyda'i dwylo nifer o blanhigion mewn potiau i loywi ffurfafen ein hanwyliaid sydd yn glaf. Gwelwyd colli Mrs Meinwen Rees sydd yn gaethiwus am iddi gael codwm yn ddiweddar, a hi yw ein cyfeilydd dibynadwy. Dymunir yn dda i Miss Susan Evans, Cambridge Road, Crosby a fydd yn symud ddechrau'r flwyddyn i'w chartref newydd yn Warren Road, Blundellsands. Da ei gweld wedi cryfhau ac yn selog yn ein cyrddau. Dymunwn ar ddiwedd blwyddyn arall ddymuno Nadolig Llawen i bawb sy'n darllen y golofn hon, a edrychwn ymlaen yn ffyddiog i gael cyfraniad y Parchedig Robert Parry i'r gwaith bugeiliol. Bydd yn cychwyn ar 1 Ebrill ac y mae hyn yn destun diolch ein holl aelodau.

### Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Bu hi yn anodd arnom yn ddiweddar oherwydd salwch disyfyd cenhadon oedd i'n gwasanaethu. Methodd y Parchedig Ioan Wyn Gruffydd, gweinidog hoffus yr Annibynwyr yng ngwlad Llŷn ar y funud olaf a balch ydym o ddeall ei fod ef yn well. Un o bobl Cilgwri ydyw y Parchedig Ddr. Gwyn Parry, Heswall a bu yntau o dan y don. Felly hefyd Mrs Siân Morris, Llanelwy wedi cyfarfod â damwain. Ond rhaid diolch am y newydd da a seiniwyd ar Sul cyntaf o Hydref gan Mrs Mair Rees Jones ein bod fel Dosbarth y flwyddyn nesaf yn derbyn bendithion arbennig gan i'r Parchedig Robert Parry dderbyn y swydd o gynorthwydd bugeiliol. Edrychwn ymlaen am ei gyfraniad gan ei fod yn adnabyddus i ni ac yn hoff o Gymry alltud a'i hymdrechion o blaid y 'pethe'. Bydd y Parchedig Dr. D. Ben Rees a'r Parchedig Robert Parry yn cydweithio er budd capeli Seion, Bethel a Bethania o Ebrill 2019 hyd mis Mawrth 2021. Y mae'r Gymanfa Ganu y cawsom gymaint o bleser o fod ynddi yn mynd i dderbyn cefnogaeth organydd o'r radd flaenaf ym mhersonoliaeth y Parchedig Robert Parry. Croeso mawr iddo.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar ddechrau mis Hydref cawsom gyfle i wrando ar John Dilwyn Williams unwaith eto. Testun ei sgwrs oedd 'Hanes Glynllifon' sef hen stâd y teulu Newborough, sydd ar y lôn rhwng Caernarfon a Phwllheli. Dechreuodd drwy ddisgrifio lleoliad y stâd yn ymyl yr afon Llifon. Adeiladawyd y plasdy presennol rhwng 1836-48 wedi i'w ragflaenydd gael ei losgi. Dyma pam fod pensaerniaeth y plasdy a'r gerddi yn adlewyrchu patrymau a ffasiwn oes Fictoria. Mae'r wal sydd yn amgylchynu'r stâd yn 6-7 milltir o hyd. Drwy luniau dangosodd i ni grandrwydd y tŷ gan ganolbwyntio ar y dodrefn moethus. Wrth drafod lliniach teulu Newborough gan ddechrau gyda Cilmyn Troed Ddu, un o bymtheg Llwyth Gwynedd yn y nawfed ganrif a gorffen gyda'r wythfed Arglwydd a werthodd Glynllifon yn 1948, cawsom gipolwg ar eu bywyd a'u ffordd o fyw tros y canrifoedd. Soniodd am y priodasau oedd wedi eu trefnu rhwng y teuluoedd cyfoethog, y gyfundrefn wleidyddol ac hefyd ambell i sgandal!

Heddiw mae'r stâd yn nwylo Cyngor Gwynedd, Coleg Amaethyddol Meirion Dwyfor a chwpl preifat. Edrychwn ymlaen i ymweld a gwerthfawrogi'r lle yn y dyfodol.

Ar Hydref 9fed cawsom gyfarfod yn y prynhawn ac aeth criw bychan ohonom i ymweld ac Amgueddfa y Byd yn Lerpwl. Yn gyntaf aethom i'r rhan sydd yn sôn am yr Aifft. Gwelsom hen bethau o'r Aifft – rhai ohonynt wedi eu casglu gan Brifysgol Lerpwl yn nechrau y ganrif ddiwethaf. Cawsom beth o hanes y wlad a chawsom dilyn yr Afon Nîl o'i tharddiad i Fôr y Canoldir. Wedyn gwelsom y mymïod a oedd yn werth eu gweld. Aethom wedyn i'r blanedariwm i weld ffilm am y bydysawd a rhai o'r planedau. I orffen ein hymweliad aethom i Ganolfan Hanes Natur y Byd. Cyn dod adref rhaid oedd cael paned o de a theisen . Diolch i Alun Davies am drefnu'r ymweliad – roedd yn brynhawn diddorol ac yn brynhawn braf a heulog.

Noson o frethyn cartref gawsom ar Hydref 16eg gyda darlith gan Dr Pat Williams ar 'Agweddau ar blant a phlentyndod mewn llenyddiaeth'. Dechreuodd trwy ddangos llun gan yr arlunydd Joshua Reynolds sef 'Age of Innocence'. Amlinellodd yr oed mae gwledydd y byd yn ystyried fod plant yn dod yn oedolion ac yn gyfrifol am eu gweithgareddau. Mae yr oed yn amrywio o 8 oed yn yr Alban i 18 oed yn Venezuela. Cyfeiriodd ar lenyddiaeth sydd yn adlewyrchu plentyndod hapus fel hiwangerdd 'Pais Dinogad' a welir yng nghanol y gerdd 'Y Gododdin', barddoniaeth enwog o'r seithfed ganrif. Dyfynnodd ddarnau o waith beirdd a llenorion fel Rhydwen Williams a Gwyn Thomas sydd yn disgrifio achlysuron hapus i blentyn fel parti penblwydd. Ond hefyd clywsom ddarnau o lenyddiaeth sydd yn disgrifio plant yn wynebu



*Cymdeithas Cymry Lerpwl o dan arweiniad Alun Davies*

Rhagfyr 2018_Layout 1 15/11/2018 14:15 Page 8




*Cymdeithas Cymry Lerpwl o dan arweiniad Alun Davies*

amgylchiadau caled e.e. tlodi enfawr yn y nofel 'Rhys Lewis', effaith gwallgofrwydd mewn perthynas yn 'Un Nos Ola Leuad', ac effaith y trafferthion yn Belfast yn y gerdd 'Er cof am Kelly'. Yn y gyfrol a ennillodd y Fedal Ryddiaith eleni sef 'Llyfr Glas Nebo' cawn weld y mab a'i fam yn goroesi ffrwydriad niwcliar. Mae'r mab yn gorfod tyfu i fyny yn gynt na'r arfer wedi'r ffrwydriad i helpu ei fam. Gobeithio y byddwn yn mynd adref i ddarllen neu ail ddarllen rhywfaint o'r gwaith y bu Pat yn sôn amdano. Diolch iddi am noson ddiddorol.

Ar nos Fawrth olaf y mis daeth y Parchedig Euros Wyn Jones atom i sôn am ei daith i Manipur, talaith yng Ngogledd Ddwyrain India sydd ar y ffin Myanmar i'r Dwyrain, Assam i'r Gorllewin a Mizoram i'r De. Bu yn Manipur am dair wythnos ym mis Chwefror eleni. Mae cysylltiad wedi bod rhwng Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r rhan yma o India ers llawer o flynyddoedd a chafodd wahoddiad gan Synod Bresbyteriadd Zou i fynd i'r dalaith i bregethu a dysgu. Yr oedd yn aros gyda theulu yn nhref Churachandpur ble erbyn heddiw mae 98% o'r boblogaeth yn arddel y ffydd Gristnogol. Mae llwyth y Zou yn dod yn wreiddiol o Mongolia ond wedi gorfod gadael y wlad a Tibet oherwydd gorthrwm Tseina. Sefydlwyd y ffydd Gristnogol yn ne Manipur gan Watkin Roberts, gŵr a oedd yn enedigol o Gaernarfon. Aeth allan i'r India gyda y cenhadwr Dr. Peter Fraser a oedd yn mynd i Mizoram. Yn 1910 anfonodd Watkin Roberts gopi o Efengyl Ioan i bennaeth pob pentref yn ne Manipur . Gofynnodd un pennaeth am fwy o wybodaeth ac aeth Watkin Roberts i aros yn y pentref am wythnos i egluro yr Efengyl iddynt. Erbyn heddiw mae gan y dalaith ei Henaduriaeth ei hun !

Tra yn yr India bu'r Parch Euros Jones yn crwydro o amgylch y wlad, yn pregethu ac yn hyfforddi gweinidogion a lleygwyr yn yr Eglwys. Bu ar sawl ymweliad a chartref i blant amddifad yn Churachandpur. Mae gan y gartref cysylltiad agos ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac mae'r enwad wedi anfon arian iddynt sydd wedi eu galluogi i ehangu y cartref a gwella y gofal i'r plant. Mae effaith Cristnogaeth wedi bod yn fawr ar y boblogaeth er na chafodd y Testament Newydd ddim cael ei chyfieithu i iaith y Zou hyd 1967. Mae llwyth y Zou yn falch o'i gwreiddiau ond hefyd eu bod wedi mabwysiadu Cristnogaeth.

# *CWIS NADOLIG YR ANGOR*

1. Pa gwmni ceir sydd yn gwneud Focus a Fiesta?
2. Llythyren olaf yr wyddor Roegaidd?
3. Enw barddol y Parchedig J. O. Williams (1853-1932) gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Kensington, Lerpwl o 1881 hyd 1930?
4. Pwy oedd gweinidog Capel Prince's Road, Lerpwl o 1895 hyd 1906 pan yr ymddeolodd i Frynsiencyn, Môn?
5. Yn ble yn Lerpwl yr oedd y bardd Felicia Dorothea Hemans (1793-1835) yn byw cyn symud i Ddulyn yn 1831. Bu'n byw yn Bronwylfa, gerllaw Llanelwy o 1809 hyd 1825?
6. Ym mha le yn Nyffryn Nedd y mae'r digrifwr Max Boyce yn byw?
7. Pwy oedd Aelod Seneddol Sir Faesyfed yn y Senedd o 1892-5, 1900 - Ionawr 1910, Rhagfyr 1910-8? Ef oedd awdur *Translations from the Welsh* (Llundain, Gwasg Chiswick, 1913)?
8. Beth oedd enw cyntaf Syr O. M. Edwards, Llanuwchllyn?
9. Enw ditectif Colin Dexter a llong Capten Cook?
10. Pwy wasg a gyhoeddodd *Gwaedd yng Nghymru* o waith yr athronydd J. R. Jones (Abertawe) yn 1970?
11. Pwy oedd y llawfeddyg o Gymro a wnaeth Ward 8 yn hen Ysbyty Frenhinol Lerpwl yn 'Ward y Cymry' yn y chwedegau?
12. Beth oedd enw mab ieuengaf yr adeiladydd J. W. Jones, Hiraethog, Garth Drive ac a fu yn Drysorydd Capel Heathfield Road yn nechrau y saithdegau?
13. Enw drymiwr y Beatles?
14. Beth yw'r enw Cymraeg ar Isle of Wight ac Isle of Man?
15. Enwch afon hiraf Affrica?
16. Enwch llyfr olaf y Beibl?
17. Cwblhewch Ryan …… ?
18. Beth yw cudyll coch a glas y dorlan?
19. Ble mae chwarel Llechwedd?
20. Enwch rheolwr tîm pêl-droed Lerpwl yn 2018?

***Anfonwch yr atebion i 32 Garth Drive, Allerton, Liverpool L18 6HW ac fe geir gwobr sylweddol i'r tri ymgeisydd a gaiff y marciau mwyaf. Ugain marc yw'r nôd. Disgwylir eich atebion i gyrraedd erbyn dydd Mawrth, 20 Rhagfyr 2018 ac fe gaiff y byd wybod yn rhifyn Chwefror 2019 o'r Angor.***

*YSGRIF GOFFA:*

# Mrs ANNIE (NAN) EVANS

## 1922-2018 Penisa'r-waun a gynt o Lerpwl

**Clywsom ym mis Medi fod ein chwaer annwyl Mrs Nan Evans yn cael problemau gyda'r galon, ac yn cael triniaeth yn Ysbyty Bodelwyddan cyn ei symud i Ysbyty Gwynedd ym Mhenrhosgarnedd. Daeth yr alwad iddi yn dawel ar 17 Hydref a hithau wedi croesi y garreg filltir o 96 mlwydd oed. Bu'r cynhebrwng yn Amlosgfa Bangor ar bnawn dydd Iau, Hydref 25 o dan ofal y darllenydd lleyg, Huw Tegid Roberts a minnau, a daeth y galarwyr ynghyd o Lerpwl, Penisa'r-waun, Abersoch, Brynrefail, Deiniolen, Caernarfon a llawer bro arall i dalu'r gymwynas olaf i un a fu yn fawr ei pharch yn ardaloedd y chwareli ac yn ninas Lerpwl.**

**Yn ei blynyddoedd cynnar fel gwraig a mam bu hi yn gynhaliaeth fawr i'r teulu gan fod ei phriod Mr. Goronwy Evans wedi ei glwyfo yn yr Ail Ryfel Byd ac yn dioddef hefyd o lwch y chwarel. Bu'n rhaid iddo dreulio misoedd yn Sanitorium Llangwyfan ac yn y cyfnod hwn ei briod Annie oedd cynhaliaeth y teulu yn cynnwys y ferch Mair a'r mab Meirion. Enillai ei bywoliaeth yn papuro tai a chartrefi a medrai wneud hynny yn broffesiynol. Penderfynodd y rhieni yn 1967 ymateb i hysbyseb am gynheiliaid Capel Cymraeg y Presbyteriaid yn Garston a chael byw yn y Tŷ Capel, a bu dyfodiad y teulu yn hynod o werthfawr i'r achos.**

**Byr fu'r blynyddoedd a gafodd Goronwy Evans yn y ddinas lle y ganwyd ef ac a'i magu yn blentyn a fyddai'n mynychu capel Bethlehem, Douglas Road. Y mae gennyf gof da amdano yn Nosbarth y De ac am ein chwithdod o'i golli yn 1970 ag yntau ond yn 52 mlwydd oed. Daliodd Nan a Mair i ofalu ar ôl y Tŷ Capel am bum mlynedd arall cyn symud i Basing Street, Garston a dyma'r adeg y deuthum yn weinidog arnynt ac ar gapel Garston.**

**Pleser bob amser oedd ymweld â hi ar yr aelwyd a chael ei mab Meirion yn flaenor yn y capel yn 1977. Roedd hi bob amser yn llawn croeso a gwên ar ei hwyneb ac yn hynod o selog i'r oedfaon a chyfarfodydd eraill yn yr wythnos yn Garston a hefyd yn Bethel, Heathfield Road. Gan fy mod yn trefnu teithiau amrywiol, daeth hi a Mair yn rhan o'r cnewyllyn y medrwn ddibynnu arnynt. Nid oedd yn gyfarwydd a theithio dramor, ond manteisiodd ar y cyfleusterau o gael gweld gwlad yr Iesu y bu hi yn ei foli ar y Sul. Cawsom fendith yn Oberamergau ac Awstria, a thaith bws i Lydaw, i weld Carnac a mannau diddorol arall sy'n perthyn i'r Celtiaid, ein cefnderwyr. Gwahoddwyd hi gan Mr. E. Goronwy Owen i weithio yn un o'i siopau fferyllydd yn Park Road, y Dingle a bu hynny yn hwb sylweddol iddi yn yr wythdegau.**

**Ar ôl priodas Mair daliodd am gyfnod yn ein plith, gan fod Meirion ac Eirlys, a'r plant Dylan, Alan a Bethan wrth law, ond gwelwyd yn weddol buan y dyhead am droi yn ôl i le y dechreuodd y daith, i bentref Penisa'r-waun yn Arfon. Soniodd Huw Tegid Roberts yn ei deyrnged wych ar ddydd yr arwyl am ei chefnogaeth i Eglwys Sant Helen ac i gapeli y Presbyteriaid fel Brynrefail. Galwai hi ef yn Huw bach a cheid yr un anwyldeb ynddi tuag at y to sydd yn codi. Roedd ynghanol ei theulu yn Arfon a'i chwaer yn byw yn agos ati. Adnabyddid hi fel Nannie Cytir i'w chyfoedion a byddai'n mwynhau cadw cysylltiad gyda'r llu o ffrindiau oedd ganddi fel canlyniad i'w theithiau, ei arhosiad yn Lerpwl am 22 mlynedd, a'r teuluoedd a gofiai ar y daith. Meddai ar gof anhygoel am enwau a choeden deulu a byddai'n llwyddo i ddatrys aml i broblem oherwydd ei chof eithriadol am deuluoedd a'r achau a berthynai iddynt. Clodforai lyfrau a rhaglenni da ar y radio a'r teledu, a byddai *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn cael blaenoriaeth yn ei gwylio ar S4C.**

**Rai misoedd yn ôl penderfynodd fod yr amser yn addas i adael ei chartref clyd, cysurus am ofal cartref henoed, a bu yn ffodus o gael ei derbyn i Blas Pengwaith yn Llanberis lle y gwnaeth ffrindiau newydd eto. Bu'r cyfnod hwn yn fendithiol dros ben, a phenderfynodd y teulu gyflwyno rhoddion er cof amdani tuag at Plas Pengwaith a Meddygfa Waunfawr trwy law Dylan Griffiths, Cyfarwyddwyr Angladdau, Penisa'r-waun, Caernarfon. Bu'r cyfarfyddiad am luniaeth ym mhafiliwn Clwb Criced Bangor yn Llandygai yn fendithiol, a diolch i'r teulu am eu croeso inni oll.**

**D. Ben Rees**

## *GWLEDD I'R CYMRY*
## *RHAGFYR 2018 / IONAWR 2019*

***yn y Ganolfan (Canolfan y Cymry) Auckland Road / Heathfield Road, Lerpwl L18 0HX (can llath o Allerton Road, Church Road / Penny Lane)***

**RHAGFYR 2018**
**NOS FAWRTH 4 – Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Woolton.**

**NOS LUN, 10 – 'Ar Drothwy'r Nadolig' yng ngofal Mrs Nan Hughes Parry.**

**NOS FAWRTH 11 – 'Naws y Nadolig' yn West Allerton (5 Caithness Road).**

**BORE SUL 16 – Oedfa yng nghwmni Cantorion Bethel am 10.30 o'r gloch gyda Mrs Anne M. Jones, Mrs Margaret A. Williams, R. Ifor Griffith a D. Ben Rees.**

**IONAWR 2019**
**NOS LUN 7 – 'Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn' yng ngofal Miss Mair Powell.**

**NOS FAWRTH, 15 – Ocsiwn yn 5 Gwydrin Road.**

**NOS LUN 21 – 'Dyddiau Ysgol Uwchradd' yng nghwmni tri a llywydd – Mri. R. Owen, Gareth Roberts, Dr. J. G. Williams a Ben Hughes.**

**NOS FAWRTH 22 – 'Suliau ein Plentyndod' yng nghwmni Beryl Wiliams, Norma Owen a Brian Thomas o dan ofal Roderick Owen.**

**NOS FAWRTH 29 – Ymweliad y Gwir Barchedig Dr. Sue Jones, 'Bywyd yn y Gadeirlan'. Llywydd: Eryl Wyn Jones, Woolton.**

*Cofiwch fod cyfarfodydd Rhagfyr 4 ac 11 (tu allan i'r Ganolfan a 15 o Ionawr) ond y gweddill yn y Ganolfan lle y ceir croeso na fu mo'i fath ar wyneb y ddaear, a lle y trefnir nos Lun a nos Fawrth gwpaned derbyniol a bisgedi siwgwraidd gwerthfawr.*

# Cymdeithas Cymry Birkenhead

Pleser eto ar Hydref 5fed oedd croesawu un o blant Penbedw, capel Salem ar Ysgol Sul Undebol, ym mherson Mr Gareth Thomas, Rhuthun. Mae amryw ohonom yn cofio ei Dad, William a'i fam Megan, aelodau ffyddlon a gweithgar, a rhai yn ein mysg wedi rhannu plentyndod ac arddegau gyda Gareth. Ganwyd ef ym Mangor ond daeth y teulu i Rock Ferry pan oedd Gareth yn dair oed. Mynchodd yr ysgol Sul yma, a thalodd deyrnged i'r capel, ffrindiau Cymraeg ac yn arbennig, athrawes Ysgol Sul, Miss Megan Roberts. Addysgwyd Gareth yn Rock Ferry High a graddiodd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yno cafodd bleser o glywed Cymraeg o'i gwmpas mor wahanol i'w brofiad yn Rock Ferry.

Treuliodd cyfnod yn Barbados cyn cychwyn ei yrfa fel bargyfreithiwr yn Lerpwl – dinas, meddai sy'n le da i ddysgu ei grefft ac ymarfer a phobl o bob ochr i'r Gymdeithas amrywiol sydd yma. Cafodd ei ethol fel aelod seneddol Llafur dros Gorllewin Clwyd yn 1997, ond collodd y sedd yn 2005, a dychwelodd i fyd y gyfraith – gwaith sydd wrth ei fodd. Pwysleisiodd fod system gyfiawnder ein gwlad yn arbennig o broffesiynol, gonest a thrylwyr, er gwaethaf rhannau o'r wasg i'w ddilorni. Byddai ddim gobaith i Brett Kavanagh gael swydd fel prif farnwr yn y wlad hon! Dylwn ddiolch nad yw swyddi yn y gyfraith ynghlwm mewn tueddiad gwleidyddol – ar y cyfan! Mae, meddai Gareth, ffyrdd haws i ennill cyflog ond teimlai ei fod ef a'i gyd-weithwyr yn ceisio cyfiawnder i rhai sy'n ei haeddu. Mae'r gwaith yn golygu oriau o ddarllen a pharatoi, ar ôl cwrs hir i raddio, gallu i rhagweld y croesholi a dyfalbarhad wrth archwilio'r gwir yn erbyn celwydd. Mae'r teledu yn rhoi darlun hollol anghywir yn aml ac mae'r wasg yn euog o farnu cyn deall y cyfan. Rhan anodd lawn o'i waith yw delio gyda phlant lle mae'r gwasanaeth cymdeithasol yn brwydro gyda'r rhieni am yr hawl i benderfynu beth fydd "y gorau" i'r plentyn. Er iddo gael profiad amrywiol ym mhob agwedd o waith y llys - troseddwyr, helyntion yn y cartref, iawndal am gam, cyflogau a.y.b teimla Gareth ei fod yn dal i ddysgu ac yn dal i rhyfeddu at ymddygiad y ddynoliaeth.

Teimla Gareth ei fod wedi cael anrhydedd wrth gynrychioli pobl Clwyd fel Aelod Seneddol am wyth mlynedd. Mae gan aelodau'r Senedd, gyfle i newid deddfau, yn hytrach na cheisio eu gweithredu. Mae gwleidyddiaeth yn broffesiwn rhanedig gyda chyhoeddusrwydd drwg ond ar y gorau yn wirioneddol awyddus i ofalu am y wlad a'i phobl. Efallai nid dyma'r amser i ddadlau hyn!! Eirwen oedd llywydd y noson, Terry y cyfeilydd a Betty a Llwynwen ofalodd am y te.

Daeth Dr. J. Elwyn Hughes i'n diddori unwaith eto ar Hydref 22ain. Wedi mwynhau ei gwmni a'i ddarlith y llynedd, roeddem yn edrych ymlaen at ei groesawu eto. Brodor o Ddyffryn Ogwen yw Elwyn, ac ef yw un o brif haneswyr ac awduron yr ardal. Anrhydeddwyd ef â'r Wisg Wen yn Eisteddfod Llanelwedd 1993 am ei gyfraniad i'r iaith. Un o'i ddiddordebau llenyddol a phersonol yw gwaith a bywyd Caradog Prichard, un o fawrion llenyddol Dyffryn Ogwen. Pwnc ei sgwrs oedd "Awdur Nofel Orau'r Gymraeg" ac mae'n amlwg nad oes neb gwell i siarad am Ddyffryn Ogwen a'i fab enwocaf, na'n gŵr gwadd heno.

Cawsom hanes yr awdur, ei fywyd a'r cysylltiad agos rhwng ei nofel enwocaf *"Un Nos Olau Leuad"* ac ardal ei febyd ym Methesda, ei bobl a'i nodweddion daearyddol – y dyffryn, y bryniau, caeau, capeli, strydoedd, cartrefi, eglwys a choedwig. Trwy luniau cyfoes a hynafol tywysodd Dr. Elwyn ni drwy lwybrau'r ardal i ddealltwriaeth glir rhwg cariad Caradog at y dyffryn, a'i allu i'w bortreadu mewn llenyddiaeth.

Roedd bywyd cynnar Caradog Prichard yn anodd iawn wedi marwolaeth ei dad yn 34 mlwydd oed. Gorfodwyd i'w fam symud o gartref i gartref oherwydd tlodi a'r straen o fagu tri plentyn ifanc, a chafodd hyn effaith difrifol ar gyflwr ei meddwl. Gwelwn olion o gymeriad ei fam, yn Jane, yn y nofel; gwelwn hefyd dreialon a direidi plentyndod ym Methesda.

Er gwaethaf amgylchiadau teuluol, disgleiriodd Caradog yn Ysgol y Sir, gan ennill clod athrawon a phrifathro. Prentisiwyd ef i'r *"Herald Gymraeg"* yng Nghaernarfon a buan iawn daeth yn Is-olygydd. Yn 1923, yn ugain oed, enillodd ei gadair gyntaf yn Eisteddfod Talysarn a thua'r un amser, yn dilyn ffrae gyda'i bennaeth, gyrrwyd Caradog i'r swyddfa yn Llanrwst. Oddiyno, parhaodd i ddringo ysgol newyddiaduriaeth, drwy'r *Western Mail*, nes cyrraedd Fleet Street a'r *'Daily Telegraph'* wedi'r rhyfel. Ar yr un pryd enillodd amryw o gadeiriau Eisteddfodol, a choron yn Lerpwl yn 1929 – yn cwblhau *'hat trick'* o dair coron yn olynol. Gorchest unigryw yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol.

Priododd Mattie Evans o Gwm Rhondda yn 1933, a ganwyd un ferch Mari. Daeth Caradog a Mattie yn ôl i Bethesda i dŷ haf, y Tŷ Gwyn – gydag amrywiaeth o gŵn. Cyhoeddwyd ei nofel odidog yn 1961, gan selio ei safle fel un o fawrion llên a barddoniaeth ein gwlad. Bu farw yn 1980 a'i gladdu yng Nghoetmor.

Mr Arwel Evans oedd llywydd y noson, Terry ein cyfeilydd. Iola, Llwynwen ac Eirwen baratodd y lluniaeth blasus.

# Croesawu y Parchedig Robert Parry i'n plith

Cyhoeddwyd yn nechrau Medi fod y Parchedig Robert Parry, gweinidog Capel y Groes, Wrecsam a St. John's Street, Caer wedi derbyn yr her o fod yn Weithiwr Bugeiliol Cynorthwyol i Ddosbarth Lerpwl, capeli Bethania, Bethel a Seion, Penbedw a hynny am ddwy flynedd (2019-2021). Ariennir y swydd gan y dair eglwys a bydd y Parchedig Robert Parry a Dr. D. B. Rees yn cydweithio gyda'u gilydd er budd y capeli Presbyteraidd hyn. Penderfynwyd gofyn i'r Pwyllgor Penodi fod yn Bwyllgor Gofal amdano a byddant yn cyfarfod bob rhyw dri mis i gael adroddiad a thrafod y gaplaniaeth. Canolbwyntia ein cyfaill ar ymweliadau gyda'r cleifion yn yr ysbytai, cartrefi a chartrefi gofal yn ogystal a chynrychioli'r Dosbarth yn ôl y galw a gwasanaethu fel y trefnir ar y Sul a noson waith. Bwriada ef a'i briod a'r ddau blentyn symud o Wrecsam i Sir y Fflint erbyn iddo ddechrau ar ei waith ar fore Llun, 1 Ebrill 2019. Gwyddom am ei ddoniau amrywiol, yn arbennig llenyddol a cerddorol, ac edrychwn ymlaen am ei gyfraniad, ei gyfeillach a'i gwmni yng ngwaith y Deyrnas. Gwyddom fod aelodau y tair eglwys yn llawenhau yn y newydd da hwn ac yn diolch i'r Pwyllgor Penodi am ei gwaith graenus yn llwyddo i ddenu un o'n gweinidogion mwyaf cymeradwy i wasanaethu Crist ei Geidwad.



***Parchg. Robert Parry ymhlith Cymry Lerpwl yn Neuadd y Ddinas***

# CYMRY MANCEINION

## YMWELIAD CYMRY MANCEINION A'R YSGWRN, CARTREF HEDD WYN

Ddydd Mercher Medi 5ed aeth unarddeg ohonom, mewn tri char, ar wibdaith i Drawsfynydd. Roedd yr haul yn tywynnu arnom a'r wlad yn fendigedig. Aeth ein siwrnai â ni trwy'r Bala a chan ei bod mor agos cawsom y cyfle i alw yn Llanycil a chanolfan Mary Jones sydd yn Eglwys Beuno Sant. Treulwyd peth amser yn darllen hanes y ferch ifanc, Mary Jones, a gerddodd yr holl ffordd i'r Bala er mwyn cael Beibl. Ar ôl cerdded y pum milltir ar hugain o Lanfihangel y Pennant i'r Bala, nid oedd Beibl ar gael. Pan welodd Thomas Charles siom y ferch ifanc, gwerthodd Feibl oedd wedi'i addo i rywun arall iddi. A dyma'r sbardun i greu Cymdeithas y Beibl ac i sicrhau fod 'Beibl i Bawb o Bobl y Byd'. Ym mynwent yr Eglwys hon, mae bedd Thomas Charles a'i deulu. Mae'n werth mynd i flasu Byd Mary Jones.

Yna, ymlaen i'r Ysgwrn, ffermdy sydd ar gyrion Trawsfynydd. Mae'r olygfa oddi yno yn ardderchog – mynyddoedd Eryri ar eu goreu, gwyrddni'r caeau o gwmpas y fferm a'r Moelwynion yn teyrnasu yn y pellter. Nid rhyfedd i Hedd Wyn ysgrifennu'r pennill Atgo:

*Dim ond lleuad borffor*
*Ar fin y mynydd llwm*
*A sŵn hen afon Prysor*
*Yn canu yn y Cwm.*

Am ddau o'r gloch, cawsom ein tywys oddi amgylch y tŷ dan arweiniad Mrs Margaret Rees Davies o Drawsfynydd. Ar nodyn personol, coron yr ymweliad imi oedd cyfarfod Margaret unwaith yn rhagor. Roeddwm ein dwy yn efrydwyr ym Mhrifysgol Bangor flynyddoedd maith yn ôl! Bu hen sgwrsio am yr amser a fu (1958-1962) dros gwpaned o de.

Mae'r ffermdy, wedi gwaith cadwraeth gofalus gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, wedi ail-agor ei ddrws ers 2017. Bellach mae'r adeilad wedi'i adfer yn wych – y gegin draddodiadol, y Gadair Ddu mewn ystafell arall, yr ystafelloedd cysgu i fyny'r grisiau yn ogystal â'r hen feudai a'r llwybrau hyfryd i'w cerdded o amgylch y safle.


Bu farw Hedd Wyn yn 1917 yn y Rhyfel Mawr. Ers hynny, bu'r Ysgwrn yn gofeb dawel i genhedlaeth gyfan o Gymry a fu farw mewn Rhyfel erchyll, ddi-ystyr. Tros y blynyddoedd, croesawyd miloedd o bererinion i'r fferm ac yn sicr ni fydd aberth Hedd Wyn na'i gyfoedion yn angof.

Wedi cwpaned o de theisen, gadawsom yr Ysgwrn a gwneud ein ffordd yn ôl, diolch i Elwyn, ein chauffeur ardderchog! Drwy Lan Ffestiniog, Ffestiniog, Dolwyddelan, Betws-y-Coed ac i lawr drwy Ddyffryn Conwy i'r A55 a'r wlad ar ei goreu. Diwedd-glo teilwng i ddiwrnod perffaith.

## YMWELIAD I'R CHAPEL IN THE FIELDS, DUNHAM

Sul olaf Medi, ar gais rhai o aelodau capel Altrincham, yn lle cael oedfa yn ein capeli aethom ar ymweliad i gapel arbennig Methodist sydd ar gyrion y ddinas i weld a dysgu beth oedd yn mynd ymlaen yno, ac i gael ein hysbrydoli, cawn ddweud hefyd.

Roedd y Parch Kevin Johnson yn ffrind i ni am fod ei gynulleidfa wedi addoli yng nghapel Willow Tree Road am 18 mis tra oedd eu capel yn cael ei ddymchwel a'i ail adeiladu fel canolfan. Roedd Kevin weid newid ei swydd ac wedi gofyn i wneud gwaith cenhadol trwy addasu hen gapel i fod yn lle encil a thawelwch i bobl Manceinion a'r cyffiniau yn yr wythnos. Rhoddwyd iddo dair blynedd i weithredu ei weledigaeth, ac roedd aelodau'r capel bach yn ei cefnogi yn y fenter ac yn dal i gyfarfod yno bob prynhawn Sul. Am fod Kevin wedi bod yn saer coed cyn mynd i'r weinidogaeth roedd ganddo ddoniau perffaith i wneud y gwaith yn ymarferol a chwilio am adnoddau ail-law ar y we, a help ymarferol hefyd felly gorffennodd y



*Chapel in the Fields, Dunham*

gwaith mewn blwyddyn ac mae'r lle fel y gwelwch chi yn y lluniau yn rhyfeddol o hardd a llawn goleuni. Kevin a'i wraig hefyd sy'n arwain y gweithgareddau sy'n cynnwys dyddiau tawel, gwaith llaw (er engraifft: gwaith coed, pobi bara, pob math o bethau) ac mae ganddynt ddull o gyflwyno'r efengyl mewn ffordd arbennig iawn i oedolion a phlant, sef Godly Play a chawsom brofiad o hynny a ninnau yn bobl hŷn, hanes y trysor yn y cau. Mi ddaru pawb deimlo'r wefr a chael lle i feddwl a myfyrio. Roedd yn arbennig iawn, cwpaned o goffi, sgwrs eto ac yna mynd adref wedi cael bore cofiadwy dros ben.

## CYFARFOD PREGETHU

Roedd yn hyfryd i gael Aled Lewis Evans yn ein pulpud yn Noddfa Oaker Avenue ar Sul cyntaf Hydref ar gyfer Cyfarfod Pregethu ein Dosbarth yma ym Manceinion. Cawsom ddwy oedfa arbennig iawn yn ei gwmni. Mae Aled yn fardd ac felly roedd ei fyfyrdod gyntaf yn canolbwyntio ar inni wneud telyneg o'n bywyd. Yn awdl Duw, meddai Waldo, mae pob un ohonom yn llinell a Duw ei hun yw'r bardd – gwelwn Dduw yn barddoni yn y cread a'r tymhorau hardd, yn y bydysawd a'i drigolion, ac yn Iesu Grist. Rhoddodd Aled llawer i ni feddwl amdano yn y ddwy oedfa gyda golau ar Weddi'r Arglwydd yn y bregeth nos a'r frawddeg drawiadol imi allan o lawer oedd bod 'cynghanedd mewn caredigrwydd' a bod pob cenhedlaeth yn ei addasu yn eu ffordd ei hun. Diolch am ddod atom Aled.

## CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION

Ar nos Wener Hydref 12fed, ein pleser oedd cael croesawu Parch Ddr Huw John Hughes, Porthaethwy i'r Gymdeithas. 'Troeon trwstan yr yrfa' oedd teitl ei anerchiad a chawsom orig hapus iawn yn gwrando ar hanes ei yrfa fel athro ar blant o bob oedran, fel gweinidog ac yn ddiweddarach fel darlithydd ac awdur toreithiog – hyn i gyd heb anghofo am Pili Palas a'i ddiddordeb yn y gloÿn byw. Mae wedi bod yn ffrind da iawn inni yma yng nghapeli Cymraeg Manceinion – fel pregethwr ar y Sul, a heb anghofio ei gyfraniad fel beirniad llên yn yr Eisteddfod a'i ymweliad yma i'r Gymdeithas i ddarlithio amryw o weithiau. Diolchwn yn fawr iddo a dymunwn yn dda iddo yn y dyfodol.

## Y RALI GENHADOL

Penderfynwyd cynnal y Rali Genhadol eleni yn Noddfa Oaker Avenue ar brynhawn Sul, Hydref 14 er mwyn i bawb gael elwa ar yr achlysur. Ein gwraig wadd eleni oedd Mrs Marion Simkin, Nercwys. Fe'i ganed yn Llundain ond symudodd y teulu i Aberystwyth. Mae bellach wedi ymgartrefu yn Nercwys ac fel ei thad a'i thadcu oedd yn flaenoriaid, mae hithau yn flaenores yng nghapel Soar, Nercwys ac yn weithgar iawn yng ngweithgareddau Henaduriaeth y Gogledd Dwyrain. Hi hefyd yw Llywydd Pwyllgor Cenhadol y Merched, hyd nes, ar ôl tair blynedd, y daw ei thymor i ben eleni.

Aelodau capel Oaker Avenue a Willow Tree Road gymerodd y rhannau agoriadol emyn, darlleniad a gweddi a Mrs Mair Swift oedd yn llywyddu. Cawsom anerchiad diddorol i didlyn a hyfryd oedd clywed am ei hymweliad â'r India yng nghwmni y Parch

Huw Powell Davies a'i deulu. Dyna brofiad, y cyfarfodydd yn orlawn ac yn llawn brwdfrydedd. Diolchwn yn fawr iddi am ddod atom i'n hannerch.



***O'r chwith i'r dde: Gwenda Watson, Marian Roberts, Marion Simkin, Hafwen Davies, Mair Swift, Eflyn Evans, Trevor Davies (yr organydd), Bronwen Jones.***

COFIO RON

Am nad oedd ein cyfaill Ron Gilford wedi dymuno cael angladd arferol nid oeddem wedi cael cyfle i roi teyrnged iddo na chofio ei gyfraniad fawr i gapeli Cymraeg yr ardal ac felly ar Sul olaf Hydref daeth rhai o'i ffrindiau atom (nid oedd y teulu yn teimlo'n barod i agor y mater eto ar ôl cael cyfarfod teuluol yng Nghymru i roi'r llwch ar Ynys Môn yn yr haf) a chawsom orig hyfryd yn diolch i Dduw ac yn cofio am ei gyfraniad aruthrol i fywyd y Cymry dros y ffin. Diolch Ron.

---



# Cyfarchion Nadolig 2018

Dymuna John a Beryl Williams NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau pell ag agos. – Gwydrin Road, Lerpwl

Dymuna y Golygydd a'i briod, D. Ben Rees a Meinwen Rees, Allerton bendithion fyrdd i ffrindiau a fu mor gefnogol a charedig yn ystod 2018. Blwyddyn i'w chofio i ni yn Lerpwl a Chymru. - Garth Drive, Lerpwl

Dymuna Dafydd a Kate Rees eich cyfarch ar y Nafolig a braf bob amser yw cael gwneud hynny trwy golofnau Yr Angor. – West Hampstead, Llundain.

Nadolig da a blwyddyn fendithiol yn 2019 yw fy nymuniad, gan ddymuno hynny i ddarllenwyr Yr Angor – Betty Lockyer, Betws Bledrws

***Myfyrdod***

# Nadolig 2018 a Blwyddyn Newydd 2019

Dyma ni unwaith eto wedi cyrraedd y Nadolig a diwedd y flwyddyn. Adegau aruthrol yn ein bywydau. Mae'n RHYFEDDOD y Nadolig, yn ei ddiniweidrwydd, ei symlrwydd yn ein denu. Mae'r fam Mair, Joseff ei gŵr, pobol cyffredin syml, fel chi a fi wedi ein cyfareddu. Mae'r bugeiliaid, y gynulleidfa gyntaf yn fobol cyffredin oedd yn byw ac yn gweithio'n agos gyda'r ddaear dan eu traed a'r sêr yn dô iddynt. Ie, wedyn y BABAN yn ei grud. Dim o'r *"pomp and circumstance"* bywyd ond "Diniweiddrwydd y Dwyfol".

Sut wnewch chi dreulio'r Ŵyl ddarllenwyr *Yr Angor*? Parti gyda'r teulu? Presentau? Pam lai. Sherry fach? Pam lai. Hwyl a miri? Pam lai? Popeth yn iawn, ond os caf, hoffwn ofyn i chi gymeryd egwyl gyda Duw. Teimlaf, iawn neu beidio, fod y byd wedi dod efallai yn ormodol yn rhan ohonom, ac beth sy'n gystudd ydy ein bod yn meddwl nad ydym yn cyflawni unrhyw beth os nad ydym yn rhedeg yn ôl ac ymlaen ac nid ydym yn barod i eistedd yn ôl yn y "cysgod". Credaf ein bod fel dywed y Sais "too many irons in the fire". Codwch eich gwydrau a rhoddwch groeso twymgalon i'ch Gwaredwr - yr Arglwydd Iesu Grist. Yr adeg yma mae pawb yn nesau at y crud, nid gorsedd dynol yw hwn ond Gorsedd syml y Dwyfol. Yma cawn benlinio ac addoli'r Baban. Yr ystyr "the meaning of God's REDEEMING love". Yma, felly, y daw yr hen a'r ifanc, y cyfoethog a'r tlawd, y mawreddog a'r gwas, pob un yn addoli ym mhrydferthwch y symlrwydd dwyfol ac i ryfeddu at Gariad Duw.

Ac yn wir dyma RHYFEDDOD arall sef Blwyddyn Newydd!! Onid yw Duw yn dda wrthym, dwedwch? Mae'n rhoddi inni gyfle a sialens arall, siawns i drio unwaith eto i fod yn deilwng o'i holl ofal a'i gariad tuag atom. Dywed y Philippiaid "ond un peth, gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn y pethau o'r tu blaen". Tybed sut flwyddyn fydd 2019, blwyddyn dathlu ein papur bro?

*Beth fydd fy rhan ar hyd y misoedd maith?*
*Nis gwn fy Nuw ond bodlon ymaflyd yn dy law.*

Beth bynnag, ni ddylem groesi i'r flwyddyn newydd heb anghofio pob amheuaeth o Dduw, anghofio pob crwydriad o'r da i bawb ac enwedig oddi wrth Iesu Grist ei hun ond yn fwy na dim i GOFlO am Ei AMYNEDD tuag atom. Mae'r cof yn dod a llais Tom Nefyn yng Nghalfaria Porth yn ôl i mi yn gweiddi Rhyfedd Amynedd Duw wrth sôn amdano wedi bod yn pregethu ac wedi cymell gydag emyn Morgan Rhys "Dewch hen ac ieuanc dewch at Iesu" ac ar ôl saith mlynedd daeth gŵr ato a'i gyflwyno fel un a gaeodd drws y gwahoddiad flynyddoedd ynghynt. Rhyfedd amynedd Duw meddai Tom Nefyn ac yn serio ar ein cof "Dwyt ti ddim yn agor tiwlip hefo cyllell". Plygwn gan ofyn maddeuant am bob drwg. Rwy'n sicr o hyn fel Jacob gynt "Ni'th adawaf". Bydd Duw gyda ni ymlaen gyda'i ofal tyner a'i gariad diderfyn ac fe fydd Ei air yn sicr ac yn ffyddlon. Fe hoffwn wrth ddymuno yn ddiffuant iawn i'ch Olygydd amhrisiadwy a'i bwyllgor gweithgar ac i chwithau ddarllenwyr yr ANGOR blwyddyn newydd dda fendithiol wrth eich hatgoffa ein bod yn byw fesul diwrnod fel dywedodd Cardinal Newman, "un cam sy' ddigon im" a dyna beth wnaf sef dringo i'r copa. Digon i'r diwrnod ei ddrwg ei hun.

**ELWYN PARRY**

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# PICNIC UNDEB CYMRY FYDD



**Picnic Cymdeithas 'Young Wales' Mai 1909 yn Churchtown, Southport**
*(derbyniwyd trwy haelioni Mrs Ann Roberts, Rhuthun)*

## LLAWENYDD A CHAMP ACADEMYDD

Clywsom fod Dafydd Huw Wrennal, Llanddoged (ŵyr Mrs Nan Hughes Parry, Woolton) wedi derbyn y newydd da iddo gael ei M.A., Prifysgol Caerdydd am ei draethawd a'i ymchwil. Derbyniodd glod arbennig am drylwyredd ei waith; bu yn selog dros ben i gapel Bethel, Lerpwl a Chymdeithas y Cymry yn ei gyfnod ym Mhrifysgol Lerpwl.

## Cydnabod Cydymdeimlad

Dymuna Mair (Southport) a Meirion a Eirlys (Allerton) a'r holl deulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, geiriau caredig, presenoldeb yn y gwasanaeth bendithiol ar 25 Hydref ym Mangor i ddiolch am fywyd Annie (Nan) Evans, Penisa'r-waun. Bu'r rhoddion a'r arwyddion o gydymdeimlad a ddangoswyd i ni yn ein profedigaeth yn gysur ac yn obaith a derbyniwch ein cydnabyddiaeth yn yr *Angor*.

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Chwefror 2019** erbyn dydd Iau, 3 Ionawr, 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net
- **Rhifyn Mawrth 2019 –** erbyn bore Gwener, 1 Chwefror, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 1 o'r gloch ar 1 Chwefror, 2019.
- **Rhifyn Ebrill 2019** – erbyn bore Gwener, 1 Mawrth, 2019 gan y bydd y cyfan yn sach y postman am Gymru erbyn hanner dydd y diwrnod hwnnw.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau'r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf.***

# HAWL I HOLI (BBC RADIO CYMRU)

Cynhaliwyd Hawl i Holi (BBC Radio Cymru) ar Nos Lun, 15 Hydref yn y Bluecoat Chambers

Lluniau: Dr. John G. Williams



***Dewi Llwyd y Cadeirydd. Yr Athro D. Ben Rees, Mari Lloyd Williams, Elfyn Llwyd ac Elin Davies***



***Rhai o'r myfyrwyr oedd yn bresennol***



***Y gynulleidfa hardd yn Hawl i Holi***

---



***Eryl Wyn Jones yn mwynhau y sgwrs gyda Hefin a'i dad yn Neuadd y Dref***



***Y Dirprwy Faer, Cynghorydd G. Miller yn cael hwyl yn cyfarch Dinesydd er Anrhydedd***

Lluniau: Jason Roberts